# DEALL JARGON DCW

## Canllaw defnyddiol i'ch helpu i ddeall rhai termau digidol cyffredin

### Ap

Llun ar eich dyfais sy'n dechrau rhaglen neu fideo pan fyddwch chi'n ei gyffwrdd â'ch bys ydy ap.

### Nod Tudalen

Ar Borwr Gwe, mae Nod Tudalen yn eich helpu i gofio gwefan rydych wedi ymweld â, ac mae'n creu botwm y gallwch ei bwyso i fynd iddi eto.

### Cwmwl

Mae'r Cwmwl yn defnyddio data i storio gwybodaeth ar y Rhyngrwyd.

### Lawrlwytho

Pan fyddwch yn derbyn gwybodaeth o'r Rhyngrwyd rydych chi'n ei lawrlwytho i'ch dyfais.

### E-bost

Neges sy'n cael ei hanfon i gyfeiriad e-bost rhywun arall yw e-bost.

### Cwestiynnau Cyffredin

Mae'r rhain yn aml i'w gweld ar wefannau gwahanol gyda gwybodaeth am gwestiynau cyffredin.

### Https

Os gallwch chi weld https ar ddechrau cyfeiriad gwe mae'n golygu bod gan y wefan gysylltiad diogel.

### iCloud Keychain

Ar ddyfeisiau Apple gallwch ddefnyddio'r iCloud Keychain i gadw'ch cyfrineiriau a manylion mewngofnodi ar gyfer gwahanol wefannau.

### Ffurflen Ar-Lein

Bydd ffurflen ar-lein yn gofyn i chi am wybodaeth bersonol a gwybodaeth berthnasol arall.

### Cyfrinair

Mae'ch cyfrinair yn diogelu gwybodaeth bersonol ar ddyfais neu wefan. Dylai'ch cyfrinair fod yn hawdd i chi ei gofio ond yn anodd i bobl eraill ei ddyfalu.

### E-bost Sgam

Mae rhai e-byst yn cael eu hanfon gan bobl na ellir ymddiried ynddyn nhw sy'n ceisio eich twyllo i rannu'ch manylion banc.



Cymunedau Digidol Cymru
Hyder Digidol, Iechyd a Lles
Digital Communities Wales
Digital Confidence, Health and Well-being
Darparwyd gan
Delivered by
cwmpas
Rhaglen Llywodraeth Cymru
Welsh Government Programme

# DEALL JARGON DCW

## Canllaw defnyddiol i'ch helpu i ddeall rhai termau digidol cyffredin

### Peiriant Chwilio

Gwefan yw peiriant chwilio sy'n gadael i chi ofyn cwestiwn a bydd yn chwilio am atebion ym mhob cwr o'r we.

### Cyfryngau Cymdeithasol

Cyfryngau cymdeithasol yw'r gair ar gyfer gwefannau ac apiau sy'n galluogi pobl i ryngweithio â'i gilydd gyda geiriau, delweddau a fideos.

### Dyfais Tabled

Mae dyfais tabled yn cael ei ddal â llaw ac yn gadael i chi gael mynediad at apiau. Mae iPads, Galaxy a Lenovo yn ddyfeisiau tabled poblogaidd.

### Lanlwytho

Lanlwytho yw'r broses o anfon gwybodaeth ar y Rhyngrwyd o'ch dyfais. Y gwrthwyneb i lawrlwytho.

### Porwr Gwe

Rydych chi'n defnyddio porwr gwe i fynd ar wefannau. Microsoft Edge ydy'r porwr gwe sy'n dod gyda Microsoft, er enghraifft.

### Dolen Gwefan

Mae gan bob gwefan y byddwch yn ymweld gyfeiriad unigryw, sef y geiriau rydych chi'n eu defnyddio i ymweld â'r wefan. Gelwir hwn yn ddolen gwefan.

### WiFi

Mae WiFi yn air arall am ryngrwyd diwifr.

### WhatsApp

Dyma ap sydd ar gael ar ffonau clyfar sy'n gadael i chi anfon negeseuon, neu ddechrau galwadau fideo, gan ddefnyddio'r Rhyngrwyd.

### YouTube

Mae YouTube yn wefan rhannu fideos. Mae llawer o fideos diddorol, hwyl, difyr ac addysgol ar YouTube, ac i gyd ar gael am ddim.

### 2-Step authentication

Nodwedd ddiogelwch yw hwn. Mae'n golygu y bydd yr ap neu'r wefan yn gofyn i chi am gyfrinair, ac yna cod.



Cymunedau Digidol Cymru
Hyder Digidol, Iechyd a Lles
Digital Communities Wales
Digital Confidence, Health and Well-being
Darparwyd gan
Delivered by
cwmpas
Rhaglen Llywodraeth Cymru
Welsh Government Programme